



Bannau Brycheiniog

RHEOLWR STRATEGAETH A PHOLISI CYNLLUNIO


GRADDFA 13 £50,269 - £54,495
(GAN GYNNWYS ATODIAD MARCHNAD)
CONTRACT PARHAOL
37 AWR Y WYTHNOS
DYDDIAD CAU:9 MAWRTH 2026
DYDDIAD CYFWELIAD:17 MAWRTH 2026



CEFNDIR

Dynodwyd Parciau Cenedlaethol er mwyn gwarchod ardaloedd hyfryd er budd y genedl. Fe'u crëwyd yn sgil Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a roddodd fframwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer sefydlu Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Dynodwyd y ddau Barc Cenedlaethol cyntaf ym 1951 ac ym 1957 dynodwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a oedd yn cwmpasu ardal o tua 520 milltir sgwâr (1346 cilometr sgwâr). Tan 1995, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gydbwyllgor o'r Cyngorau Sir ar y pryd tan i Ddeddf Amgylchedd 1995 gyflwyno deddfwriaeth newydd a oedd yn sefydlu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn Awdurdodau Lleol annibynnol, gyda diben arbennig.



BETH MAE PARCIAU CENEDLAETHOL YN EI WNEUD?

Mae gan Barciau Cenedlaethol ddau ddiben. Yn gyntaf, maent yn gwarchod a gwella amgylchedd naturiol a diwylliannol y parc, ac yn ail maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a mwynhad o'i briodweddau arbennig. Mae'r priodweddau arbennig hyn wedi'u disgrifio fel:

- y dirwedd a'r harddwch naturiol
- yr heddwch a'r llonyddwch
- cyfleoedd i gerdded a mynediad i gefn gwlad agored
- mannau agored a'r ansawdd bellennig
- tir amaeth sy'n cael ei reoli'n draddodiadol,
- bywyd gwylt

Drwy wneud hyn, mae gan y Parciau Cenedlaethol ddyletswydd hefyd i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau o fewn y Parc.

Wrth gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol bum swyddogaeth allweddol, sef:

- 1.gweithredu fel Awdurdod Cynllunio
- 2.gweithredu fel Awdurdod perthnasol ar gyfer mynediad i gefn gwlad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- 3.hwyluso rhaglenni amgylcheddol
- 4.darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, dehongliadau a gwasanaethau addysg
- 5.darparu cronfa datblygu cynaliadwy ar ran Llywodraeth Cymru.



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys 18 aelod, 12 a enwebwyd gan y saith Awdurdod Lleol yn yr ardal ac 6 a enwebwyd gan Weinidog dros yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddwy garfan yn helpu i sicrhau bod buddiannau lleol a chenedlaethol yn cael eu cynrychioli ar lefel Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae amrywiol bwyllgorau allweddol yn gyfrifol am reoli busnes yr Awdurdod. Hefyd, mae gweithgorau a grwpiau cynghori - mewnol ac allanol - wedi'u sefydlu i lywio'r broses benderfynu. Cyflogir tua 110 o staff cyfwerth â llawn amser mewn dwy Gyfarwyddiaeth - Cynllunio a Lle a Adfer Natur a Newid Hinsawdd, yn ogystal ag Adran y Prif Weithredwr - Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cyllid, TG, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac Adnoddau Dynol. Mae staff ac Aelodau'n gyfrifol am ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau a rôl allweddol swyddogion yw darparu cyngor ac arweiniad i Aelodau'r Awdurdod i'w helpu i wneud penderfyniadau a phennu'r weledigaeth a'r strategaethau ar gyfer yr Awdurdod.

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw dogfen strategol allweddol yr Awdurdod ac mae'n datgan ein nodau, ein hamcanion strategol a'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu ar gyfer yr Awdurdod (www.beacons-npa.gov.uk). Yn ogystal â'r ddogfen hon, mae gennym Gynllun Datblygu Unedol wedi'i gymeradwyo (www.beacons-npa.gov.uk) sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol o fewn y Parc Cenedlaethol ac rydym wrthi'n datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn datblygu ei Adroddiad ar Gyflwr y Parc, a fydd yn crynhoi statws newidiol asedau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y Parc. Gan fod gennym gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am gynnal a chadw a rheoli Hawliau Tramwy, rydym yn gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Awdurdod.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn dirweddau gwarchodedig Categori V fel y diffinnir gan UNEB Rhyngwladol Cadwraeth Natur IUCN). Mae hyn yn cydnabod cyfranogiad pobl yn y gwaith o lunio'r tirweddau. Fel pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, mae amaethyddiaeth yn ddylanwad mawr ar y ffordd y mae'r dirwedd yn cael ei rheoli. Mae sector ffermio hyfyw, proffidiol, eangfrydig ac arloesol, sy'n cydweithio'n agos â chymunedau'r Parc, busnesau lleol a chyrff cyhoeddus a gwirfoddol yn hollbwysig wrth reoli'r dirwedd yn y dyfodol. Bydd hyblygrwydd a'r gallu i addasu yn briodweddau pwysig wrth fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, dulliau o leihau'r defnydd o ynni a newidiadau demograffig a chymdeithasol yn y dyfodol.

RHEOLWR STRATEGAETH A PHOLISI CYNLLUNIO

DISGRIFIAD SWYDD

Dynodiad Swydd: Rheolwr Strategaeth a Pholisi Cynllunio

Gradd: 13

Yn gyfrifol i: Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle

Yn gyfrifol am: Uwch Swyddogion Cynllunio (x2), Uwch Ecolegwyr Cynllunio (x2),
Technegydd Cynllunio.

Pwrpas y Swydd:

Arwain a chyflawni swyddogaethau polisi cynllunio statudol yr Awdurdod, gan gynnwys paratoi, archwilio a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a'i fonitro a'i adolygu.

Darparu cyngor ar a chefnogi'r gwaith o baratoi strategaeth a pholisi cynllunio gan gynnwys canllawiau cynllunio atodol, cynlluniau lle, cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol.

Arwain a rheoli'r Tîm Strategaeth a Pholisi Cynllunio gan sicrhau darparu gwasanaethau effeithlon, cost-effeithiol a gwelliant parhaus.



PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Goruchwylio'r gwaith o baratoi, archwilio, mabwysiadu a monitro Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol.
- Goruchwylio a chefnogi materion sy'n ymwneud â chynllunio ecoleg a meysydd gwaith cysylltiedig fel partneriaethau dalgylch afonydd ACA.
- Darparu cyngor polisi cynllunio ar geisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig, achosion gorfodi ac apeliadau.
- Rheoli a mewnbwn mewn gwaith polisi cynllunio arall sy'n berthnasol i'r Awdurdod gan gynnwys paratoi cynlluniau datblygu strategol, Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynlluniau Lle, briffiau datblygu ac astudiaethau.
- Darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i uwch swyddogion ac Aelodau ar strategaeth gynllunio, polisi a materion cysylltiedig gan sicrhau bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i Aelodau yn cael eu diweddarau a'u briffio ar waith y Tîm Strategaeth a Pholisi Cynllunio a datblygiadau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol eraill.
- Cyfrannu at weithredu a monitro Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol i sicrhau integreiddio rhwng polisïau cynllunio a rheoli.
- Comisiynu arolygon, astudiaethau neu wasanaethau/prosiectau arbenigol yn ôl yr angen i gefnogi darparu gwasanaethau a rheoli contractau o'r fath yn effeithiol.
- Cysylltu â Llywodraeth Cymru, Parciau Cenedlaethol eraill ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â datblygu a gweithredu polisïau cynllunio, ymgynghoriadau a thystiolaeth gysylltiedig.
- Hyrwyddo cyfranogiad pobl leol a rhanddeiliaid eraill yn y broses gynllunio ac adeiladu a chynnal perthnasoedd llwyddiannus gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau perthnasol.
- Cyfrannu tuag at waith apêl cynllunio'r Awdurdod ar faterion polisi ac, pan fo'n briodol, i fynychu ymchwiliadau/gwrandawiadau cyhoeddus.
- Darparu arweinyddiaeth, rheoli llinell a chefnogaeth i staff o fewn y Tîm Strategaeth a Pholisi Cynllunio sy'n goruchwylio blaenoriaethau gwaith, arfarniadau a chanlyniadau.
- Goruchwylio a monitro perfformiad y Tîm Strategaeth a Pholisi Cynllunio sy'n cefnogi gwella'r gwasanaeth yn barhaus a sicrhau bod amcanion busnes yn cael eu cyflawni.
- Helpu i sicrhau bod cysylltiadau cadarnhaol rhwng y Strategaeth a Pholisi Cynllunio a gweddill y Gwasanaeth Cynllunio a'r Awdurdod.
- Rheoli a monitro cyllideb y Tîm Strategaeth a Pholisi Cynllunio.
- Cynrychioli'r Awdurdod a mynychu a chyflwyno cyfarfodydd a phwyllgorau priodol yn ôl yr angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i radd a natur y swydd fel y cyfarwyddir gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle neu'r Prif Swyddog Gweithredol.

RHEOLWR STRATEGAETH A PHOLISI CYNLLUNIO MANYLEB PERSON

Meini Prawf Hanfodol:

O leiaf 4 blynedd o brofiad perthnasol mewn Polisi Cynllunio

Profiad y geelir ei arddangos o gymhwyso cyfraith gyhoeddus / gweinyddol i wneud cynlluniau

Aelodaeth siartredig o'r Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol

Gwybodaeth fanwl am bolisi cynllunio, deddfwriaeth a gweithdrefnau cysylltiedig

Dealltwriaeth o faterion ecolegol yn y broses gynllunio a rheoliadau cysylltiedig

Y gallu i weithio o dan bwysau, ar ei fenter ei hun a threfnu'r llwyth gwaith yn effeithiol

Gallu profedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gost-effeithiol ac yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Y gallu i ddarparu cyngor cydlynol, cymwys a phroffesiynol yn ysgrifenedig ac ar lafar

Gallu i ddangos sgiliau sefydliadol a rhyngbersonol sy'n ofynnol i ddarparu meysydd gwaith cymhleth a chwrdd â dyddiadau cau.

Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac i fentora a chefnogi cydweithwyr ar faterion sy'n gysylltiedig â chynllunio.

Y gallu i ddelio yn ddiplomyddol â'r cyhoedd, Aelodau'r Parc Cenedlaethol, staff a rhanddeiliaid eraill.

Y gallu i ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth ddatblygu a darparu'r gwasanaeth.

Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y tu allan i oriau swyddfa craidd

Lefel 0 Sgiliau Iaith Gymraeg

Meini Prawf Dymunol:


Cymhwyster cydnabyddedig, gradd neu gyfwerth mewn Cynllunio Gwlad a Thref neu ddisgyblaeth gysylltiedig

Profiad arweinyddiaeth, rheoli ac arweinydd tîm o fewn Cynllunio

Gwybodaeth gadarn o Dechnoleg Gwybodaeth, yn enwedig GIS Mapinfo a Windows

Sgiliau Cymraeg Lefel 1

Deall ymadroddion bob dydd, ac ymadroddion sylfaenol iawn os yw'r siaradwr yn siarad yn araf. Deall sgysiau am wybodaeth bersonol sylfaenol. Defnyddiwch rai ymadroddion cyfarwydd bob dydd, e.e. cyfarchion, diolch. Ynganu enwau lleoedd ac enwau pobl a siarad am bethau personol sylfaenol a phynciau sylfaenol mewn sefyllfa anffurfiol. Deall testunau byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu eraill. Fel arfer dewch o hyd i fanylion, fel amser a chost, mewn hysbysebion neu hysbysiadau



GWYBODAETH YCHWANEGOL

Hawl gwyliau blynyddol

25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â 8 gŵyl gyhoeddus a 2 ddiwrnod statudol ychwanegol, pro rata. Mae hawl gwyliau yn codi bob blwyddyn hyd at 30 diwrnod y flwyddyn ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth. Os ydych chi'n symud o wasanaeth Awdurdod allanol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rydych chi'n gallu trosglwyddo'ch hawl gwyliau a gronnwyd (a gronnwyd yn sgil hyd gwasanaeth) hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

Pensiwn

Gweithredir cynllun pensiwn Llywodraeth Leol safonol; mae'r gweithiwr cyflogedig yn cyfrannu 5.5% (hyd at £16,501) sy'n codi i 5.8% (£16,501) o'u horiau cytundebol a weithiwyd ac ar hyn o bryd mae'r cyflogwr yn cyfrannu 20.9%.

Lleoliad

Bydd y swydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Parc Cenedlaethol yn Aberhonddu, ond rydym yn gweithredu trefniadau gweithio hyblyg ac anogir cydbwysedd gwaith/bywyd. Rhaid i wladolion yr AEE a'r Swistir NAD ydynt yn gymwys i wneud cais am hawl i weithio yn y DU o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, fod â math arall o ganiatâd mewnfudo sy'n eu galluogi i weithio o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

Mae'n rhaid derbyn ceisiadau erbyn 11.00 yb ar fore'r 9 mawrth 2026. Yn anffodus, ni fyddwn yn ystyried ceisiadau hwyr.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol nad yw'n arfer gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gydnabod ceisiadau, na hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu ceisiadau. Os nad ydym yn cysylltu â chi, ni fydd eich cais wedi bod yn llwyddiannus.

Nodwch a oes gennych anabledd mewn llythyr eglurhaol. Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol, ac yn cael eich gwahodd am gyfweiliad, rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion arbennig.

Derbynnir a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafrïol na rhai Saesneg. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi ar eich ffurflen gais a ydych am gynnal eich cyfweiliad a'ch asesiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os byddwch yn llwyddiannus, ac yn cyrraedd y cam cyfweld ac yn dymuno cynnal eich cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er budd aelodau di-Gymraeg o'r panel.

Noder y bydd yr holl ffurflenni cais a gwybodaeth ategol yn cael eu cadw'n ddiogel am chwe mis ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi pe bai swydd addas yn codi. Ar ôl chwe mis, byddwn yn dinistrio pob ffurflen gais a gwybodaeth ategol. Os nad ydych chi am i ni gadw'ch gwybodaeth, rhowch wybod i ni a byddwn yn dinistrio'ch ffurflen gais ar ôl i'r broses recriwtio ddirwyn i ben.

Mae'n Bolisi gan yr Awdurdod i gysylltu â chanolwyr ar ôl gwahodd ymgeiswyr i gyfweiliad. A fydddech cystal â nodi unrhyw broblemau y gallai hyn ei achosi ar eich ffurflen gais o dan yr adran berthnasol. Noder bod yn rhaid i chi allu dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol a nodir yn y fanyleb person sy'n berthnasol i'r swydd hon wrth lenwi'ch ffurflen gais. Dylech hefyd ddangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf dymunol a nodir yn y fanyleb person, ond os nad ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf dymunol, peidiwch â gadael i hyn eich rhwystro rhag ymgeisio.

RHEOLWR STRATEGAETH A PHOLISI CYNLLUNIO

DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Rydym yn prosesu data personol yn ymwneud â'r rheiny rydym yn eu cyflogi at ddibenion cyflogaeth, i helpu wrth redeg yr awdurdod a/neu er mwyn talu unigolion.

Bydd casglu'r wybodaeth hon yn fuddiol hefyd:

- wrth wella rheolaeth data'r gweithlu
- wrth alluogi datblygu darlun cynhwysfawr o'r gweithlu a sut mae'n cael ei ddefnyddio
- wrth roi gwybod am ddatblygu polisiau recriwtio a chadw staff
- wrth ganiatáu gwell modelu a chynllunio ariannol
- wrth alluogi monitro nodweddion penodol sy'n cael eu diogelu

Mae'r data personol yn cynnwys dulliau adnabod megis enw, dyddiad geni, rhif cyflogres (SAP), nodweddion personol megis rhyw, anabledd a grŵp ethnig, ynghyd â chymwysterau, perfformiad ac absenoldeb / gwybodaeth am iechyd galwedigaethol.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch gyda thrydydd partion heb eich caniatâd oni fydd y gyfraith yn caniatáu neu'n mynnu inni ei rhannu er mwyn rheoli eich cytundeb cyflogaeth gyda ni. Pan fyddwn yn rhannu'ch data, gwneir hynny drwy gyfrwng meddalwedd e-bost wedi'i amgryptio neu ffeiliau gyda chyfrinair wedi'i ddiogelu. Mae'n ofynnol inni rannu rhywfaint o'ch data personol gyda:

- HMRC
- Gwasanaethau AD a Cyflogres gan gyrff allanol (gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd)
- Pensiynau Cyngor Sir Powys sy'n gweinyddu cynllun pensiwn yr Awdurdod
- Archwilio Llywodraeth Leol a thimau darganfod twyll

Rydym yn storio gwybodaeth am ymgeiswyr am swyddi am 6 mis ac am weithwyr am 7 mlynedd ar ôl gorffen cyflogaeth. Caiff data eu storio'n electronig ar weinyddion BBNPA. Mae cyfyngiadau mynediad ar gofnodion gweithwyr, sy'n golygu mai staff AD yn unig sy'n gallu eu gweld a'u prosesu. Caiff cofnodion ffisegol eu storio yn y swyddfa AD, sydd dan glo ac mewn cypyrddau ffeilio wedi'u cloi.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn storio'ch data personol a'u defnyddio, neu os hoffech ofyn am i'ch manylion gael eu symud, cysylltwch â'r Swyddog AD.

Rheolwr data: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP
Cyswllt: Jessica Holifield, Swyddog AD
Ffôn : 01874 620420

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, bydd yr Awdurdod yn casglu ac yn prosesu data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â'r ffordd mae'n casglu'r data hynny a'u defnyddio ac i fodloni ei rwymedigaethau ar ddiogelu data.

DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Pa wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei chasglu?

Bydd yr Awdurdod yn casglu amrywiol wybodaeth amdanoch, sy'n cynnwys:-

- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manyion am eich cymwysterau, eich sgiliau, eich profiad a'ch hanes cyflogi;
- gwybodaeth am lefel gyfredol eich tâl;
- gwybodaeth a oes gennych anabledd neu beidio a bod angen i'r Awdurdod wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig; a
- gwybodaeth am gyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, rhywedd, iechyd, a chrefydd neu gred.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, gall data fod ar gael mewn ffurflenni cais, CV neu grynodedau, wedi'u casglu o'ch pasbort neu ddogfennau adnabyddiaeth eraill, neu eu casglu drwy gyfweiliadau neu fathau eraill o asesiadau, gan gynnwys profion ar-lein.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn casglu data personol amdanoch oddi wrth drydydd partïon, megis geirdaon a ddarperir gan gyn gyflogwyr a gwybodaeth o archwiliadau cofnodion troseddol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cael gwybodaeth gan drydydd partïon dim ond pan fyddwch wedi cael cynnig swydd, a chewch wybod ei fod yn gwneud hynny.

Caiff data eu storio mewn amrywiaeth o wahanol fannau, gan gynnwys yn eich cofnod ymgeisio, mewn systemau rheolaeth AD ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

Pam mae'r Awdurdod yn prosesu data personol?

Mae angen i'r Awdurdod brosesu data i gymryd camau ar eich cais cyn llunio cytundeb gyda chi. Mae angen iddo brosesu'ch data hefyd i lunio cytundeb gyda chi.

Mewn rhai achosion mae angen i'r Awdurdod brosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddo archwilio hawl ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y Deyrnas Unedig cyn i gyflogaeth ddechrau.

Mae gan yr Awdurdod ddiddordeb cyfreithlon mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data oddi wrth ymgeiswyr am swyddi yn caniatáu i'r Awdurdod reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer ei gyflogi, a phenderfynu i bwy i gynnig swydd. Gall fod angen i'r Awdurdod brosesu data hefyd oddi wrth ymgeiswyr am swydd i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn.

Bydd yr Awdurdod yn prosesu gwybodaeth am iechyd os bydd angen iddo wneud addasiadau rhesymol yn y broses recriwtio ar gyfer ymgeisydd sydd ag anabledd. Diben hyn yw cyflawni ei rwymedigaethau ac ymarfer hawliau penodol mewn cysylltiad â chyflogaeth.

DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Lle bydd yr Awdurdod yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, rhywedd, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hynny er mwyn monitro cyfle cyfartal.

Ar gyfer rhai swyddi, mae'n ofynnol i'r Awdurdod geisio cael gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau. Lle bydd yr Awdurdod yn ceisio cael y wybodaeth hon, mae'n gwneud hynny am fod angen iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac ymarfer hawliau mewn cysylltiad â chyflogaeth.

Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio'ch data at unrhyw ddiben arall heblaw'r ymarfer recriwtio rydych wedi gwneud cais amdano.

Pwy sy'n cael gweld data?

Caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol ar gyfer yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm AD a recriwtio, cyflenwyr sy'n rhan o'r broses recriwtio, cyfwelwyr sy'n rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes lle mae swydd wag a staff TG os bydd angen iddynt weld y data wrer mwyn cyflawni eu swyddogaeth.

Ni fydd yr Awdurdod yn rhannu eich data gyda thrydydd partion oni fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, neu os bydd angen hynny dan y gyfraith. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais yn amodol ar eirdaon, bydd yr Awdurdod wedyn yn rhannu'ch data gyda chyn gyflogwyr i gael geirdaon ar eich cyfer, ac os bydd natur y swydd yn mynnu hynny, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael yr archwiliadau cofnodion troseddol angenrheidiol. Ni fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'ch data y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

Sut mae'r Awdurdod yn diogelu data?

Mae'r Awdurdod yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif calon. Mae ganddo bolisiâu a dulliau rheoli mewnol ar waith i sicrhau na chaiff eich data eu colli, eu dinistrio'n ddamweiniol, eu camddefnyddio na'u datgelu, ac ni ellir eu gweld ond gan ein gweithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau'n briodol.

Pa mor hir fydd yr Awdurdod yn cadw data?

Os na fydd eich cais am waith yn llwyddiannus, bydd yr Awdurdod yn cadw'ch data ar ffeil am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio a'r cyfleoedd cyflogaeth perthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff eich data eu dileu neu eu dinistrio. Os bydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, caiff data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio eu trosglwyddo i'ch ffeil personnel a'u cadw yn ystod eich cyflogaeth. Bydd y cyfnodau pan gaiff eich data eu cadw yn cael eu darparu ichi mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:

- weld eich data a chael copi ohonynt drwy wneud cais;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn;
- ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data lle nad oes angen y data mwyach at y dibenion y'u cafwyd yn wreiddiol;
- gwrthwynebu prosesu eich data lle bydd yr Awdurdod yn dibynnu ar ei ddiddordebau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol dros brosesu; a

RHEOLWR STRATEGAETH A PHOLISI CYNLLUNIO

DATGANIAD PREIFATRWYDD:

·gofyn i'r Awdurdod roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os bydd data yn anghywir neu os bydd anghytundeb a yw eich buddiannau chi yn drech na seiliau cyfreithlon yr Awdurdod dros brosesu data.

Os hoffech ymarfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch ag Jessica Holifield, Swyddog AD. E-bost: jessica.holifield@beacons-npa.gov.uk Gallwch wneud cais am weld gan rywun sy'n destun data drwy gysylltu - E-Bost: Diogelu Data Dileu dpo@beacons-npa.gov.uk

Os credwch nad yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth.

Beth os na fyddwch yn darparu data personol?

Does dim rhwymedigaeth statudol na chontractiol arnoch i ddarparu data i'r Awdurdod yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na ddarparwch y wybodaeth, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn methu â phrosesu eich cais yn briodol, neu ddim o gwbl.

Does dim rhwymedigaeth arnoch i ddarparu gwybodaeth at ddibenion monitro cyfle cyfartal, ac ni fydd hynny'n cael effaith ar eich cais os dewiswch beidio â darparu gwybodaeth felly.

